O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2021 Rhif 438 (Cy. 141)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A494 (Stryd Fawr, y Bala, Gwynedd) (Gwahardd a Chyfyngu ar Aros) 2021

Gwnaed *30 Mawrth 2021*

Yn dod i rym *1 Ebrill 2021*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer cefnffordd yr A494, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 1(1), 2(1), 2(2) a 124 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), a pharagraff 27 o Atodlen 9 iddi, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Mae Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori â Phrif Swyddog Heddlu Gogledd Cymru ac wedi rhoi hysbysiad cyhoeddus o'u bwriad i wneud y Gorchymyn hwn yn unol â rheoliadau 5(1) a 6(1) o Reoliadau Gorchmynion Traffig yr Ysgrifennydd Gwladol (Gweithdrefn) (Cymru a Lloegr) 1990(**2**).

Enwi a Chychwyn

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A494 (Stryd Fawr, y Bala, Gwynedd) (Gwahardd a Chyfyngu ar Aros) 2021 a daw i rym ar 1 Ebrill 2021.

Dehongli

2. Yn y Gorchymyn hwn—

(**1**) 1984 p. 27; diwygiwyd adrannau 1(1), 2(1) a (2) gan adran 168 o Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p. 22) a pharagraffau 17 a 18 o Atodlen 8 iddi, a diwygiwyd adran 1(1) gan baragraff 36(1) o Atodlen 22 i Ddeddf yr Amgylchedd 1995 (p. 25). Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(**2**) O.S. 1990/1656, fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2020/802.

mae i "bathodyn person anabl" ("*disabled person's badge*") yr ystyr a roddir iddo yn rheoliad 2(1) o Reoliadau Personau Anabl (Bathodynnau ar gyfer Cerbydau Modur) (Cymru) 2000**(1)**;

mae i "disg barcio" ("*parking disc*") yr ystyr a roddir yn rheoliad 8(5) o Reoliadau Gorchmynion Traffig Awdurdodau Lleol (Esemptiadau ar gyfer Personau Anabl) (Cymru) 2000**(2)**;

ystyr "y gefnffordd" ("*the trunk road*") yw cefnffordd yr A494 Dolgellau i fan i'r De o Benbedw; ac

mae i "safle perthnasol" ("*the relevant position*") yr ystyr a roddir gan reoliad 4 o Reoliadau Gorchmynion Traffig Awdurdodau Lleol (Esemptiadau ar gyfer Personau Anabl) (Cymru) 2000.

Gwahardd Aros

3. Ac eithrio fel a ddarperir yn erthyglau 7(1) a 7(2), ni chaiff neb beri na chaniatáu i unrhyw gerbyd aros ar ochrau'r darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn ar unrhyw adeg ar unrhyw ddiwrnod.

4. Ac eithrio fel a ddarperir yn erthygl 7(3), ni chaiff neb beri na chaniatáu i unrhyw gerbyd aros ar ochrau'r darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn ar unrhyw adeg ar unrhyw ddiwrnod.

Cyfyngu ar Aros

5. Ac eithrio fel a ddarperir yn erthyglau 7(1) a 7(2), ni chaiff neb beri na chaniatáu i unrhyw gerbyd aros ar ochrau'r darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 3 i'r Gorchymyn hwn am gyfnod sy'n hwy nag un awr rhwng 09:00 a 18:00 o'r gloch ar unrhyw ddiwrnod gyda dim dychwelyd o fewn un awr.

6. Ac eithrio fel a ddarperir yn erthyglau 7(1) a 7(2), ni chaiff neb beri na chaniatáu i unrhyw gerbyd aros ar ochrau'r darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 4 i'r Gorchymyn hwn rhwng 09:00 a 18:00 o'r gloch ar unrhyw ddiwrnod.

Esemptiadau

7.—(1) Caiff person beri neu ganiatáu i unrhyw gerbyd aros ar ochrau'r darnau o'r gefnffordd a bennir yn erthyglau 3, 5 a 6 cyhyd ag sy'n angenrheidiol i alluogi—

(**1**) O.S. 2000/1786 (Cy. 123), ddiwygiwyd gan O.S. 2014/3082. Mae offerynnau diwygio eraill, ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol.

(**2**) O.S. 2000/1785 (Cy. 122).

(a) person i fynd i mewn i gerbyd, neu i ddod allan ohono;

(b) nwyddau i gael eu llwytho ar gerbyd neu eu dadlwytho ohono:

(c) y cerbyd i gael ei ddefnyddio mewn cysylltiad ag unrhyw un neu ragor o'r gweithrediadau a ganlyn:

(i) gwaith adeiladu, gwaith diwydiannol neu waith dymchwel;

(ii) symud unrhyw rwystr i draffig;

(iii) cynnal a chadw, gwella neu ailadeiladu'r darnau o'r gefnffordd; neu

(iv) gosod, codi, addasu neu atgyweirio, yn y darnau hynny o'r gefnffordd, neu mewn tir cyfagos, unrhyw garthffos neu unrhyw brif bibell, unrhyw bibell neu unrhyw gyfarpar ar gyfer cyflenwi nwy, dŵr neu drydan neu unrhyw gyfarpar cyfathrebu electronig fel y'i diffinnir ym mharagraff 5 o Atodlen 3A i Ddeddf Cyfathrebiadau 2003(**1**);

(d) y cerbyd i gael ei ddefnyddio yng ngwasanaeth awdurdod lleol neu awdurdod dŵr yn unol â swyddogaethau statudol;

(e) y cerbyd i gymryd petrol, olew, dŵr neu aer o unrhyw garej sydd ar y darnau o'r gefnffordd neu'n gyfagos iddo;

(f) y cerbyd i gael ei ddefnyddio at ddibenion y frigâd dân, y gwasanaeth ambiwlans neu'r heddlu; neu

(g) y cerbyd i stopio pan fo'r person sydd â rheolaeth arno'n gwneud y canlynol:

(i) pan fydd yn ofynnol yn ôl y gyfraith iddo stopio;

(ii) pan fydd yn gorfod stopio er mwyn osgoi damwain;

(iii) pan gaiff ei rwystro rhag mynd yn ei flaen; neu

(iv) pan fo'n gweithredu yn ôl cyfarwyddyd neu â chaniatâd cwnstabl heddlu, swyddog cymorth cymunedol yr heddlu neu swyddog gorfodi sifil.

(2) Caiff person beri neu ganiatáu i gerbyd sy'n dangos yn y safle perthnasol fathodyn person anabl a disg barcio (y mae'r gyrrwr, neu berson arall sy'n gyfrifol am y cerbyd, wedi nodi arnynt yr amser pryd y dechreuodd y cyfnod aros) aros ar ochrau'r darnau o'r gefnffordd a bennir yn erthyglau 3, 5 a 6 am gyfnod nad yw'n fwy na 3 awr, gydag awr o leiaf yn

(**1**) 2003 p. 21. Mewnosodwyd Atodlen 3A gan baragraff 1 o Atodlen 1 i Ddeddf yr Economi Ddigidol 2017 (p. 30).

gwahanu'r cyfnod hwnnw a chyfnod blaenorol y bu'r un cerbyd yn aros ar yr un diwrnod ar yr un darnau o'r gefnffordd a bennir yn erthyglau 3, 5 a 6.

(3) Caiff person beri neu ganiatáu i gerbyd sy'n dangos yn y safle perthnasol fathodyn person anabl i aros ar ochrau'r darnau o'r gefnffordd a bennir yn erthygl 4 ar unrhyw adeg.

Dirymiadau

8. Mae Gorchymyn Cefnffordd (Stryd Fawr, Y Bala) (Gwahardd a Chyfyngu ar Aros) 1970**(1),** Gorchymyn Cefnffordd (Stryd Fawr a Heol yr Orsaf, Y Bala) (Gwahardd a Chyfyngu ar Aros) 1974(**2)** a Gorchymyn Cefnffordd (yr A494) Stryd Fawr, Y Bala, Gwynedd) (Safleoedd Bysiau) (Clirffordd) 1989**(3)** wedi eu dirymu.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 30 Mawrth 2021

Nicci Hunter
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru

ATODLEN 1

Y darnau o'r gefnffordd lle y gwaherddir aros

1. Y darn o ochr ogledd-orllewinol y gefnffordd o'r enw Stryd Fawr sy'n ymestyn o ganolbwynt ei chyffordd â Rhestai Cambrian hyd at bwynt 5 metr i'r de-orllewin o'r gyffordd honno ac y rhoddir y cyfeirnod J1 iddo ar y plan a adneuwyd.

2. Y darn o ochr ogledd-orllewinol y gefnffordd o'r enw Stryd Fawr sy'n ymestyn o ganolbwynt ei chyffordd â Rhestai Cambrian hyd at bwynt 4 metr i'r gogledd-ddwyrain o'r gyffordd honno ac y rhoddir y cyfeirnod J2 iddo ar y plan a adneuwyd.

(**1**) O.S. 1970/997.
(**2**) O.S. 1974/862.
(**3**) O.S. 1989/360**.**

3. Y darn o ochr ogledd-orllewinol y gefnffordd o'r enw Stryd Fawr sy'n ymestyn o ganolbwynt ei chyffordd â Stryd yr Eglwys hyd at bwynt 11.5 o fetrau i'r de-orllewin o'r gyffordd honno ac y rhoddir y cyfeirnod K1 iddo ar y plan a adneuwyd.

4. Y darn o ochr ogledd-orllewinol y gefnffordd o'r enw Stryd Fawr sy'n ymestyn o ganolbwynt ei chyffordd â Stryd yr Eglwys hyd at bwynt 1.5 metr i'r gogledd-ddwyrain o'r gyffordd honno ac y rhoddir y cyfeirnod K2 iddo ar y plan a adneuwyd.

5. Y darn o ochr ogledd-orllewinol y gefnffordd o'r enw Stryd Fawr sy'n ymestyn o ganolbwynt ei chyffordd â'r A4212 hyd at bwynt 26.5 o fetrau i'r de-orllewin o'r gyffordd honno ac y rhoddir y cyfeirnod L1 iddo ar y plan a adneuwyd.

6. Y darn o ochr ogledd-orllewinol y gefnffordd o'r enw Stryd Fawr sy'n ymestyn o ganolbwynt ei chyffordd â'r A4212 hyd at bwynt 82.5 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o'r gyffordd honno ac y rhoddir y cyfeirnod L2 iddo ar y plan a adneuwyd.

7. Y darn o ochr dde-ddwyreiniol y gefnffordd o'r enw Stryd Fawr sy'n ymestyn o ganolbwynt ei chyffordd â Heol Tegid hyd at bwynt 12.5 o fetrau i'r de-orllewin o'r gyffordd honno ac y rhoddir y cyfeirnod M1 iddo ar y plan a adneuwyd.

8. Y darn o ochr dde-ddwyreiniol y gefnffordd o'r enw Stryd Fawr sy'n ymestyn o ganolbwynt ei chyffordd â Heol Tegid hyd at bwynt 11.5 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o'r gyffordd honno ac y rhoddir y cyfeirnod M2 iddo ar y plan a adneuwyd.

9. Y darn o ochr dde-ddwyreiniol y gefnffordd o'r enw Stryd Fawr sy'n ymestyn o ganolbwynt ei chyffordd â Heol Berwyn hyd at bwynt 7 metr i'r de-orllewin o'r gyffordd honno ac y rhoddir y cyfeirnod N1 iddo ar y plan a adneuwyd.

10. Y darn o ochr dde-ddwyreiniol y gefnffordd o'r enw Stryd Fawr sy'n ymestyn o ganolbwynt ei chyffordd â Heol Berwyn hyd at bwynt 2.5 metr i'r gogledd-ddwyrain o'r gyffordd honno ac y rhoddir y cyfeirnod N2 iddo ar y plan a adneuwyd.

11. Y darn o ochr dde-ddwyreiniol y gefnffordd o'r enw Stryd Fawr sy'n ymestyn o ganolbwynt ei chyffordd â'r B4391 hyd at bwynt 14.5 o fetrau i'r de-orllewin o'r gyffordd honno ac y rhoddir y cyfeirnod O1 iddo ar y plan a adneuwyd.

12. Y darn o ochr dde-ddwyreiniol y gefnffordd o'r enw Stryd Fawr sy'n ymestyn o ganolbwynt ei chyffordd â'r B4391 hyd at bwynt 98 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o'r gyffordd honno ac y rhoddir y cyfeirnod O2 iddo ar y plan a adneuwyd.

ATODLEN 2

Y darnau o'r gefnffordd lle y gwaherddir aros ar unrhyw adeg (deiliaid bathodyn person anabl yn unig)

1. Y darn o ochr dde-ddwyreiniol y gefnffordd o'r enw Stryd Fawr sy'n ymestyn o bwynt 35.5 o fetrau i'r de-orllewin o ganolbwynt ei chyffordd â Heol Berwyn hyd at bwynt 44 o fetrau i'r de-orllewin o'r gyffordd honno ac y rhoddir y cyfeirnod Z1 iddo ar y plan a adneuwyd.

2. Y darn o ochr ogledd-orllewinol y gefnffordd o'r enw Stryd Fawr sy'n ymestyn o bwynt 38 o fetrau i'r gogledd o ganolbwynt ei chyffordd â Rhestai Cambrian hyd at bwynt 45 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o'r gyffordd honno ac y rhoddir y cyfeirnod Z2 iddo ar y plan a adneuwyd.

3. Y darn o ochr dde-ddwyreiniol y gefnffordd o'r enw Stryd Fawr sy'n ymestyn o bwynt 48 o fetrau i'r de-orllewin o ganolbwynt ei chyffordd â Heol Tegid hyd at bwynt 57.5 o fetrau i'r de-orllewin o'r gyffordd honno ac y rhoddir y cyfeirnod Z3 iddo ar y plan a adneuwyd.

4. Y darn o ochr ogledd-orllewinol y gefnffordd o'r enw Stryd Fawr sy'n ymestyn o bwynt 152.5 o fetrau i'r gogledd o ganolbwynt ei chyffordd â Heol Arenig hyd at bwynt 159.5 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o'r gyffordd honno ac y rhoddir y cyfeirnod Z4 iddo ar y plan a adneuwyd.

ATODLEN 3

Y darnau o'r gefnffordd lle y cyfyngir ar aros i awr rhwng 09:00 a 18:00 o'r gloch o ddydd Llun i ddydd Sul gyda dim dychwelyd o fewn un awr

1. Y darn o ochr ogledd-orllewinol y gefnffordd o'r enw Stryd Fawr sy'n ymestyn o bwynt 24 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â Heol Arenig hyd at bwynt 152.5 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o'r gyffordd honno ac y rhoddir y cyfeirnod A iddo ar y plan a adneuwyd.

2. Y darn o ochr ogledd-orllewinol y gefnffordd o'r enw Stryd Fawr sy'n ymestyn o bwynt 5.5 metr i'r de-orllewin o ganolbwynt ei chyffordd â Rhestai Cambrian hyd at bwynt 36 o fetrau i'r de-orllewin o'r gyffordd honno ac y rhoddir y cyfeirnod B iddo ar y plan a adneuwyd.

3. Y darn o ochr ogledd-orllewinol y gefnffordd o'r enw Stryd Fawr sy'n ymestyn o bwynt 45 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â Rhestai Cambrian hyd at bwynt 86.5 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o'r gyffordd honno ac y rhoddir y cyfeirnod C iddo ar y plan a adneuwyd.

4. Y darn o ochr ogleddol-orllewinol y gefnffordd o'r enw Stryd Fawr sy'n ymestyn o bwynt 83 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â Stryd yr Eglwys hyd at bwynt 120.5 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o'r gyffordd honno ac y rhoddir y cyfeirnod D iddo ar y plan a adneuwyd.

5. Y darn o ochr dde-ddwyreiniol y gefnffordd o'r enw Stryd Fawr sy'n ymestyn o bwynt 86.5 o fetrau i'r de-orllewin o ganolbwynt ei chyffordd â Heol Tegid hyd at bwynt 143.5 o fetrau i'r de-orllewin o'r gyffordd honno ac y rhoddir y cyfeirnod E iddo ar y plan a adneuwyd.

6. Y darn o ochr dde-ddwyreiniol y gefnffordd o'r enw Stryd Fawr sy'n ymestyn o bwynt 12.5 o fetrau i'r de-orllewin o ganolbwynt ei chyffordd â Heol Tegid hyd at bwynt 48 o fetrau i'r de-orllewin o'r gyffordd honno ac y rhoddir y cyfeirnod F iddo ar y plan a adneuwyd.

7. Y darn o ochr dde-ddwyreiniol y gefnffordd o'r enw Stryd Fawr sy'n ymestyn o bwynt 44 o fetrau i'r de-orllewin o ganolbwynt ei chyffordd â Heol Berwyn hyd at bwynt 72 o fetrau i'r de-orllewin o'r gyffordd honno ac y rhoddir y cyfeirnod G iddo ar y plan a adneuwyd.

8. Y darn o ochr dde-ddwyreiniol y gefnffordd o'r enw Stryd Fawr sy'n ymestyn o bwynt 7 metr i'r de-orllewin o ganolbwynt ei chyffordd â Heol Berwyn hyd at bwynt 35.5 o fetrau i'r de-orllewin o'r gyffordd honno ac y rhoddir y cyfeirnod H iddo ar y plan a adneuwyd.

9. Y darn o ochr dde-ddwyreiniol y gefnffordd o'r enw Stryd Fawr sy'n ymestyn o bwynt 2.5 metr i'r gogledd-ddwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â Heol Berwyn hyd at bwynt 46.5 o fetrau i'r de-ddwyrain o'r gyffordd honno ac y rhoddir y cyfeirnod I iddo ar y plan a adneuwyd.

ATODLEN 4

Y darnau o'r gefnffordd lle y cyfyngir ar aros o ddydd Llun i ddydd Sul rhwng 09:00 a 18:00 o'r gloch

1. Y darn o ochr ogledd-orllewinol y gefnffordd o'r enw Stryd Fawr sy'n ymestyn o ganolbwynt ei chyffordd â Heol Arenig hyd at bwynt 42 o fetrau i'r de-orllewin o'r gyffordd honno ac y rhoddir y cyfeirnod P iddo ar y plan a adneuwyd.

2. Y darn o ochr ogledd-orllewinol y gefnffordd o'r enw Stryd Fawr sy'n ymestyn o bwynt 20.5 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â Stryd yr Eglwys hyd at bwynt 83 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o'r gyffordd honno ac y rhoddir y cyfeirnod Q iddo ar y plan a adneuwyd.

3. Y darn o ochr ogledd-orllewinol y gefnffordd o'r enw Stryd Fawr sy'n ymestyn o bwynt 26.5 o fetrau i'r de-orllewin o ganolbwynt ei chyffordd â'r A4212 hyd at bwynt 65.5 o fetrau i'r de-orllewin o'r gyffordd honno ac yn rhoddir y cyfeirnod R iddo ar y plan a adneuwyd.

4. Y darn o ochr dde-ddwyreiniol y gefnffordd o'r enw Stryd Fawr sy'n ymestyn o ganolbwynt ei chyffordd â Heol Aran hyd at bwynt 45 o fetrau i'r de-orllewin o'r gyffordd honno ac y rhoddir y cyfeirnod S1 iddo ar y plan a adneuwyd.

5. Y darn o ochr dde-ddwyreiniol y gefnffordd o'r enw Stryd Fawr sy'n ymestyn o ganolbwynt ei chyffordd â Heol Aran hyd at bwynt 44.5 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o'r gyffordd honno ac y rhoddir y cyfeirnod S2 iddo ar y plan a adneuwyd.

6. Y darn o ochr dde-ddwyreiniol y gefnffordd o'r enw Stryd Fawr sy'n ymestyn o bwynt 30.5 o fetrau i'r de-orllewin o ganolbwynt ei chyffordd â Heol y Domen hyd at bwynt 38.5 o fetrau i'r de-orllewin o'r gyffordd honno ac y rhoddir y cyfeirnod T iddo ar y plan a adneuwyd.

7. Y darn o ochr dde-ddwyreiniol y gefnffordd o'r enw Stryd Fawr sy'n ymestyn o bwynt 57.5 o fetrau i'r de-orllewin o ganolbwynt ei chyffordd â Heol y Domen hyd at bwynt 94 o fetrau i'r de-orllewin o'r gyffordd honno ac y rhoddir y cyfeirnod U iddo ar y plan a adneuwyd.

8. Y darn o ochr dde-ddwyreiniol y gefnffordd o'r enw Stryd Fawr sy'n ymestyn o bwynt 14.5 o fetrau i'r de-orllewin o ganolbwynt ei chyffordd â'r B4391 hyd at bwynt 40 o fetrau i'r de-orllewin o'r gyffordd honno ac y rhoddir y cyfeirnod V iddo ar y plan a adneuwyd.